**Cyfarwyddiaeth Llywodraeth Leol a Chynllunio**
**Local Government and Planning Directorate**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Penaethiaid Cynllunio, Awdurdodau
Cynllunio Lleol

15 Rhagfyr 2025

Annwyl Gydweithwyr,

**Gweithredu system prosiectau seilwaith o arwyddocâd**

Ysgrifennaf i'ch hysbysu bod y broses newydd ar gyfer cydsynio prosiectau seilwaith sylweddol yng Nghymru yn dod i rym heddiw. Mae'r broses yn berthnasol i ddatblygiadau seilwaith ar raddfa fawr sy'n gysylltiedig â phrosiectau ynni adnewyddadwy, gwastraff, dŵr a thrafnidiaeth yng Nghymru. Mae'n disodli'r Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) a systemau cydsynio presennol eraill.

Bydd unrhyw geisiadau DNS presennol, a'r rhai sy'n bodloni'r darpariaethau trosiannol ar gyfer y broses gydsynio berthnasol, yn parhau i gael eu hystyried o dan y systemau presennol. Bydd ceisiadau newydd neu geisiadau arfaethedig ar gyfer prosiectau seilwaith o arwyddocâd yn cael eu hystyried o dan y broses newydd.

Rydym wedi cyhoeddi cyfres o ganllawiau i gynorthwyo rhanddeiliaid i weithredu'r broses newydd ar ein gwefan. Byddwn yn parhau i ddiweddaru'r wefan gyda chanllawiau pellach pan fydd ar gael.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r broses newydd, mae croeso i chi gysylltu â'r Tîm Cydsynio Seilwaith ar infrastructureconsenting@llyw.cymru.

Yn gywir,

N. Hemington

**Neil Hemington**
**Prif Gynllunydd**
Planning Directorate
Llywodraeth Cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Parc Cathays / Cathays Park
Caerdydd / Cardiff
CF10 3NQ

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre
0300 0604400